

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 20 Mai 19, 2022 50c.

Dathlu'r Deugain - Capel Coffa Cyffordd Llandudno



Yn dilyn yr oedfa fore Sul 8 Mai 2022 cafwyd paned a chacen i ddathlu carreg filltir yn hanes un o blant yr eglwys, sef y Parchedig Iwan Llewelyn Jones, sydd yn awr yn weinidog ym Mhorthmadog a'r cylch. Traddododd Iwan ei bregeth gyntaf yn y Capel Coffa, Cyffordd Llandudno union bedwar deg mlynedd yn ôl, ym mis Mai 1982, pan oedd ond yn ddwy ar bymtheg oed ac yn ddisgybl ysgol ar y pryd.

Daeth yn aelod o'r eglwys sy'n cyfarfod yn y Capel Coffa pan oedd yn dair ar ddeg oed.

Dyna pryd y daeth ei dad sef y diweddar Barchedig Gwyn Jones yno fel gweinidog i'r Arglwydd Iesu o eglwys Bethel, Cemaes, Môn. Felly mae'n dilyn yn ôl troed ei dad, a dywed mai ei dad a'r diweddar Brifathro R. Tudur Jones, Bala Bangor, a fu'n ddylanwad mawr arno.



Hanner canrif o wasanaeth

Cafodd Tom Price dipyn o sypréis yn ystod oedfa Sul y Pasg wrth i'r eglwys ddymuno'n dda iddo ar gyrraedd 50 mlynedd o wasanaeth fel diacon ar y Tabernacl, Porth-cawl. Yn ystod Pasg 1972 fe godwyd Tom fel diacon, yn ddydd ifanc (sydd yn dal i fod yn ifanc, sylwch).

Diolchwn iddo am flynyddoedd o wasanaeth ond am y blynyddoedd sydd i ddod hefyd wrth iddo barhau a'i swydd fel diacon. Ynghyd â chyfarchiad gan y gweinidog a'r cynweinidog Rosan Saunders fe gafwyd englyn arbennig gan John Elfed i nodi'r achlysur:

Un addfwyn, parod ei gymwynas, – un
Sy'n hynod fel plwyfwas,
Yn holl waith 'Y Gymdeithas'
Hwn roddodd iddi urddas.

Dylan Rhys



Yn y llun fe welir y Parchg Iwan Llewelyn Jones a dau o ddiaconiaid Capel Coffa, Mr Sam Owen, a rannodd rai o'i atgofion, a Mrs Catherine Watkin a ddywedodd ychydig o'i hanes. Cyflwynwyd rhodd fechan gyda llongyfarchiadau a dymuniadau gorau Capel Coffa i'r Parchedig Iwan Llewelyn Jones wrth iddo ddathlu pedwar deg o flynyddoedd ers dechrau pregethu'r Efengyl. Diolchwn iddo am ei weinidogaeth gyfoethog trwy'r holl flynyddoedd.

Julie Jones

(Hoffem fel tîm golygyddol Y Tyst ychwanegu ein llongyfarchiadau gwresog i Iwan – sy'n rhan o'r tîm – ar gyrraedd y garreg filltir nodedig hon yn ei weinidogaeth a phob bendith i'r dyfodol. Gol.)

Pen-blwydd

Ar Sul y Pasg dathlwyd nid yn unig atgyfodiad corfforol Iesu o'i fedd ond hefyd ben-blwydd gweinidog yr eglwys, Rhys, yn 30. Cymerwyd yr oedfa gan Rhys ar y thema naturiol ar gyfer Sul y Pasg: 'Cododd Crist'. Pregethodd ar atgyfodiad corfforol a llythrennol yr Arglwydd Iesu sydd yn golygu nad oes gan farwolaeth hawl aniom fel Cristnogion fel y dywedir yn 1 Corinthiaid 15: 5: 'O farwolaeth, ble mae dy fuddugoliaeth?' Crist sydd yn fuddugol a ninnau hefyd yn ei nerth!

Cafwyd parti yn y festri ar ôl yr oedfa lle'r oedd teisen a lluniaeth ar gael i bawb. Roedd yr Ysbryd Glân ar waith yn ystod yr oedfa – clod iddo!

William Rhys Locke



Y TEULU JAMES

Dyma ail ran erthygl gan Mabel James Winterburn, Porth-cawl.

Dyma gopi o erthygl a ymddangosodd ym *Mhapur Pawb*, 22 Medi 1894:

MAE SŌN AMDANYNT

Un o weinidogion hynotaf, mwyaf cymeradwy a phoblogaidd Cymru y dyddiau hyn ydyw Parchg Edward James, nid yn unig am ei fod yn gadeirydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ond hefyd am y neilltuolion hynny a'i nodwedda fel rhan o olyniaeth cyn-bregethwyr Cymru gyda'r ieuengrwydd hwnnw a berthyn i weinidogion yr oes hon. Yr oedd 'James Llanaelhaearn' ac yn ddiweddar 'James Nefyn' wedi ennill enw iddo i hun bron cyn bod sôn am Undeb gan yr enwad, ac nid oedd ei benodiad yn gadeirydd eleni yn adlewyrchiad o'r parch yr oedd eisoes yn ei feddu ym mysg ei gydwladwyr. A grasusol a chymeradwy oedd gwaith ei frodyr yn ei benodi i'r swydd bwysig a chyfrifol ym mis Mehefin diweddar, pan



oedd efe, druan, heb lwyr adfer o gystudd maith a blin.

Monwysyn

Fel llawer o enwogion y pulpud Cymreig o'i flaen, un o fechgyn Môn ydyw y Parchg E. James, wedi ei eni ym mhlwyf Llanfachraeth yn y flwyddyn 1839. Amddifadwyd ef o fam dda a duwiol pan oedd ond deng mlwydd oed, eithr gadawodd hi argraffiadau dwys ac annileadwy ar feddwl ei mab hynaf. Yn 1859 aeth i drigo yng Nghaerdybi, ac yno bu yn ddigon ffodus i ddyfod o dan ddylanwad un o ddyinion puraf a mwyaf sanctaidd y pulpud Cymreig - y diweddar Barchg William Griffiths. Wedi bod ddwy flynedd yng Nghaerdybi, perswadiwyd ef i draddodi ei bregeth gyntaf. Y flwyddyn ganlynol, aeth i gadw ysgol ddyddiol i un o blwyfi anghysbell Sir Gaernarfon, lle yr oedd achos Annibynnol yn cael ei ddechrau mewn tŷ annedd. Yma, gwasanaethodd fel pregethwr ac ysgolfeistr hyd nes y caewyd y chwareli yn yr ardal, a phan wasgarodd y trigolion, daeth yr ysgol a'r achos crefyddol i ben yn y lle. Erbyn hyn, yr oedd ei enw a'i ddawn wedi dod yn hysbys drwy'r wlad. A derbyniodd amryw alwadau i arolygu eglwysi. Derbyniodd gais i ddod yn weinidog yn eglwysi Llanaelhaearn a Sardis, ac yno yr arhosodd hyd 1872 pan symudodd i Nefyn, ardal gyfagos, yr hyn a brawf fod i'r proffwyd hwn, beth bynnag, barch yn ei ardal ei hun, ac yn Nefyn yr erys hyd y dydd heddiw.

James Nefyn

Cyflawnodd wasanaeth pwysig yn y wasg ac yn y pulpud, ac nid oes yr un cyfarfod pregethu mawr yn gyflawn os na fydd 'James Nefyn' ynddo, ac ato ef bob amser yr edrychir am arwr y cyfarfod. Yn anffodus, megis Paul, un o blant y cystudd mawr ydyw, ond, wedi'r cwbl, y mae fel yr apostol yn llawnfryd ac wrth ei fodd yn yr ymwybyddiaeth. 'Ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio,' a'i Feistr Mawr yn y cymeriad hwnnw bob amser fydd testun, nid yn unig ei bregethau, ond hefyd ei gân a'i orfoledd. Ac mor deimladwy y mae'r ddynoliaeth bob amser gyda rhai o'r nodwedd hwnnw pan ddelir hwynt gan flinfyd. Felly fu yn achos gwrthrych ein hysgrif. Galwodd ei gystudd diweddar allan y profion mwyaf calonnog a sylweddol o barch pobl Dduw at rai yn ei sefyllfa, ac ym mis Mehefin diweddar, cyflwynwyd iddo rodd o dri chan ceiniog (300p) a gyfrannwyd gan ei edmygwyr. Gallwn ddweud yn hyderus na fu yng Nghymru well dymuniadau, ac na offrymwyd erioed mwy o weddiâu nag am adferiad Mr James i'w gynefin iechyd, yr hyn y mae'n bleser gennym ddeall sydd yn cael ei sylweddoli. Caffed cadeirydd presennol yr Undeb Annibynnwyr Cymru oes faith a dedwydd i wasanaethu'r Arglwydd y mae bob amser wedi bod mor ymroddol iddo.

[*Dyna ni. Ychydig o hanes yr Undeb cynnar allai fod o ddiddordeb i un neu ddau. Cawn hanes Joseph James ac O. Waldo James rhywdro eto o bosib.*]

Llanllanast

Ar y Sul cyntaf o bob mis fe gynhelir sesiwn Llanllanast yng nghanolfan yr Eglwys Newydd, Caerdydd gan eglwys Ebeneser. Y mae hwn yn weithgarwch bywiog a deniadol sydd wedi bod yn boblogaidd gan nifer ac yn ffordd o gyrraedd teuluoedd newydd. Mae pob sesiwn yn cynnwys thema Feiblaidd, stori, crefftau, gemau, cân wedi eu cymysgu gyda dogn helaeth o sbort a sbri. Fe olyga tipyn o waith trefnu a pharatoi o flaen llaw i'r tîm gweithgar sydd wrth y llyw ond y mae'n werth yr holl ymdrech wrth weld y plant yn dysgu am Iesu. Yn ystod mis Ebrill cynhaliwyd sesiwn arbennig y Pasg yn rhannu hanes rhyfeddol a llawen atgyfodiad yr Arglwydd Iesu. Y mae llawlyfrau Cymraeg ar gael – sy'n gymorth mawr wrth baratoi – gan y Cyngor Ysgolion Sul ac ar werth drwy wefan Gwales.



Wedi'r Pasg yng Nghaernarfon

Ys gwn i a oes wyau Pasg ar ôl yn eich cartref erbyn hyn? Neu a wnaethant ddiflannu mor gyflym ag y cyrhaeddodd nhw? Dyna'r drefn yn ein tŷ ni – tydi wyau siocled ddim yn para'n hir yma! A hithau'n fis Mai, mae'r Pasg yn dechrau teimlo'n bell iawn yn ôl erbyn hyn, yn dydy? Mae cymaint o gyffro a gweithgaredd wrth baratoi at y Pasg nes y gall y cyfnod sy'n dilyn deimlo ychydig yn 'wag' a difywyd. Mae'n debyg mai dyna sut roedd y disgyblion a dilynwyd lesu yn teimlo wedi'r atgyfodiad a'r esgyniad, yndé?

Yr her i mi bob blwyddyn ydy dal gafael yng nghynwrf a gobaith y Pasg a cheisio fy ngorau i sicrhau fy mod yn cerdded gyda Christ y Pasg bob diwrnod o'r flwyddyn. Un peth sy'n fy helpu i wneud hyn ydy myfrio ar weithgaredd y Pasg: y cyfarfodydd a'r gwasanaethau y cefais gyfle i fod yn rhan ohonyn nhw.

Wedi dau Basg gwahanol iawn yn ystod y pandemig, roedd rhyw gyffro ychwanegol eleni o gael cydgyfarfod a threfnu gweithgaredd cyhoeddus. Rhaid i mi gyfaddef i benwythnos y Pasg yng Nghaernarfon fod yn arbennig iawn i mi eleni. Cafwyd oedfa gymun undebol fore Gwener y Groglith a gorymdaith y Pasg i ddilyn. Criw bychan iawn ohonom oedd yn cerdded gyda'r groes i lawr Stryd Llyn eleni; ond er mai criw bach oedden ni, roedden ni yno – ac yn tystio'n gyhoeddus i ddiwyddiadau'r Groglith. Diolch i fy neiaint Deian ac Owain am ddod i helpu i gario'r groes – neu efallai y dylswn ddechrau eu galw yn Seimon o Gyrene a'i frawd!

Wedi cerdded i lawr Stryd Llyn, cafwyd cyfle o flaen Capel y Maes i rannu neges y Pasg gydag unrhyw un oedd yn pasio. Diolch i Llinos Mai Morris, llwyddwyd i ddod â gardd y Pasg i Faes Caernarfon. Er, rhaid dweud mai distaw iawn oedd y maes y bore hwnnw. Dwi'n amau fod pawb wedi mynd dramor eleni yn hytrach na dod yma ar eu gwyliau! Ond cafwyd cyfle i sgwrsio ag ambell un a rhannu wyau Pasg a nod llyfr gyda neges y Pasg cyn canu emyn a chydweddio. Gyda'r nos cafwyd cyfle arall i fyfrio ar y groes dan arweiniad rhai o bobol ifanc Salem.

Ar fore Sul y Pasg roeddwn yn addoli yn Salem eto, a da oedd cael bod yno! Roedd fel petai mwy o fywyd yn y canu, a braf oedd gweld plant yr ysgol Sul yn y sedd fawr unwaith eto yn ein harwain yn eu cân o 'Haleliwia! ... Ewch â'r newyddion da i'r byd, lesu fu farw – cyfododd!' Braint hefyd oedd cael bod yn dyst i dderbyn pedwar o bobl ifanc yr eglwys – Gwydion, Wil, Gruff ac Alis – yn gyflawn aelodau. Ar ôl cinio, roeddwn yn addoli yn Noddfa (yr eglwys gymunedol ar Stad Ysgubor Goch. Unwaith eto, braf oedd cael cwmni rhai o blant a phobl ifanc Noddfa yn ein haddoliad llawen.

Mae'n hawdd digalonni y dyddiau hyn. Mae'r pandemig wedi gadael ei ôl ar ein heglwys fel y mae wedi'i wneud ar bob rhan o gymdeithas. Bu cyfnodau tywyll iawn i nifer yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae llawer yn holi: 'Sut ydan ni'n ailafael mewn pethau a chymaint wedi newid? I ble rydan ni'n mynd o fan hyn?' Mae'n anodd ateb y cwestiynau hyn – onid oes cymaint o ansicrwydd yn parhau o'n cwmmpas? Ond yr hyn sy'n bwysig ydy dal gafael yn yr hyn sydd yn sicr ac yn yr hyn y gallwn ei wneud – sef parhau i ymddiried yn Nuw a pharhau i gerdded drwy ein bywyd yng nghwmni Crist.

Cawn ein hatgoffa y byddwn yn byw gydag effaith y pandemig am beth amser eto. Ond yn union fel y mae gwanwyn wedi'r gaeaf a bore'r Pasg wedi Gwener y Groglith, yr hyn mae'r Pasg yn ein hannog i'w wneud yw byw mewn gobaith. Gallwn fyw mewn gobaith am ein bod yn gwybod fod lesu wedi trechu marwolaeth, bod ei oleuni yn gryfach na'r tywyllwch, a hyd yn oed yn ein gwendid y cawn ein cynnal a'n hannog drwy ei Ysbryd i barhau â'n gwaith o fod yn dystion a disgyblion iddo. A dyna yw ein braint ni, heddiw yn 2022 yn ein cymunedau ar hyd a lled y wlad. Awn yn ein blaenau gan fynd â'r Pasg efo ni bob dydd.

*Mererid Mair
Caernarfon*



Rhannu wyau Pasg ar y Maes



Yr hogiau yn cario'r groes i lawr Stryd Llyn



Y rhai gafodd eu derbyn yn Salem gyda'r gweinidogion



Golygfa'r Bedd Gwag ar y Maes

Newynu i Gael Rhoi

**cymorth
cristnogol**

Cyflwyniad i'r Wythnos Cymorth Cristnogol

Efallai ichi gael cyfle eisoes i ymuno mewn gwasanaeth Cymorth Cristnogol. Gellir gweld ffilm sy'n rhan o'r gwasanaeth a dod i adnabod Janet a'i theulu – un o'r bobl ryfeddol y mae Cymorth Cristnogol yn eu cynorthwyo i ddarparu ar gyfer ei theulu. Mae Janet yn 70 oed a chanddi ddeg o blant, 28 o wyrion ac 8 o or-wyrion. Dilynwch y ddolen hon i lawrlwytho'r ffilm fer os gallwch. Mae hi'n werth ei gweld: <https://www.christianaid.org.uk/ffilm/Gymraeg>

Yn y gwasanaeth sydd wedi ei baratoi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol eleni ac ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd, fe ystyrir be ydi byw bywyd ffrwythlon. Dyma ymadrodd gaiff ei ddefnyddio trwy'r Beibl. Mae dwyn ffrwyth sy'n dda ac sy'n parhau yn rhywbeth y cawn ein galw iddo fel dilynwy'r Iesu.

Beth mae dwyn ffrwyth yn ei olygu yn y byd heddiw? Mewn byd ble mae 44 miliwn yn wynebu her ddyddiol prinder bwyd a newyn cronig, beth mae 'ffrwyth sy'n parhau' yn ei olygu i fywyd pob un ohonon?

Gan mai ffynhonnell o fywyd a chynhaliath felys yw ffrwyth, ni allwn ond ystyried her newyn. Rhaid hefyd ystyried y newid sy raid inni fod yn rhan ohono i sicrhau'r atebion.

Gwreiddir y syniadau hyn yn storïau Jessica a Janet o Zimbabwe. Zimbabwe gaiff sylw Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio yno er mwyn eu helpu i addasu eu dulliau amaethyddol. Mae Janet Zirugo yn fam-gu 70 oed ac wedi gweld ei bywyd yn cael ei drawsnewid gan y technegau newydd. Un peth yn benodol sydd wedi ei helpu yw'r hadau newydd y mae'n eu defnyddio erbyn hyn. Mae'r hadau hyn yn wydn iawn mewn cyfnodau sych a thrwy eu defnyddio gall Janet sicrhau cynydu da ar gyfer ei theulu. Mae wedi gallu troi ei thir sych a llychlyd yn ardd lawn llysiâu lliwgar.

Mae lluniau Jessica a'i theulu i'w gweld ar yr amlenni Cymorth Cristnogol eleni gyda'r alwad inni ei helpu 'i droi newyn yn obaith'. Mae hi'n dyheu neu'n newynu mewn gwirionedd am gael cyfle i ddarparu digon o fwyd ar gyfer ei theulu.

Byddwn yn myfrio ar y cwestiynau mawr hyn trwy eu profiad nhw o newyn gaiff ei achosi gan sychder.

Gadewch inni addoli a chanmol Duw ac ymbil arno i ddwyn cyfiawnder i'r tlawd a'r newynog, pobl fel Janet a Jessica, drwy gyfrwng y gweddiâu hyn:

'Roedd coed y bywyd bob ochr i'r afon yn rhoi deuddeg cnwd o ffrwythau

– cnwd newydd bob mis. Mae dail y coed yn iacháu'r cenhedloedd.'

(Datguddiad 22:2)

Gadewch inni ddod at yr afon

a bod fel y coed a blannwyd wrth ffrydiau dŵr,
gan osod ein gwreiddiau yn ddwfn yng ngair Duw,
yn dwyn ffrwyth da fydd yn parhau,
heb grino gan flinder, yn ymestyn i dderbyn
a bod yn ffynhonnell iachâd.

Amen.

Gweddi wrth ddod ynghyd

Greawdwr, Mab ac Ysbryd, ymgasglwn heddiw,
ar lein neu yn gorfforol i geisio dy bresenoldeb
yn ein hamser o addoliad. RYDYM YN NEWYNU AMDANAT TI
Tyrd i'n cyfarfod yn ein hangen. Cysyllta ni gydag anghenion eraill.
Cyfarpara ni i ymuno yn dy waith creadigol. Trawsnewidia ni i fod yn debycach i ti.

RYDYM YN NEWYNU AM DY GYFIAWNDER

Ymgasglwn gyda Jessica a Janet
a'u cymunedau yn Zimbabwe yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon.
Bydded i'w storïau ein gwneud yn newynog am gyfiawnder
ac yn fwy diamynedd am newid.

RYDYM YN NEWYNU AM DY GYFIAWNDER

Ymgasglwn gyda'r holl greadigaeth; gyda'r mynyddoedd a'r bryniau.
Byddwn yn bloeddio canu, gyda choed y maes, byddwn yn curo ein dwylo.

RYDYM YN NEWYNU I DY FOLI DI

AMEN.



**Helpwch Jessica
i droi newyn
yn obaith**

'Mae'n brifo anfon fy mhiant i'r gwely yn llwglyd.'

**Help Jessica
turn hunger
into hope**

'It pains me to send my children to bed hungry.'

**cymorth
cristnogol
christian
aid**

Rhowch heddiw er mwyn helpu'r fam gariadus hon i ofalu am ei theulu.
Give today to help this loving mum provide for her family.

Wythnos Cymorth Cristnogol 15-21 Mai
Christian Aid Week 15-21 May

Amlen Cymorth Cristnogol eleni sy'n rhoi sylw i Jessica a'i theulu yn Zimbabwe

Gweddi o alarnad

Sefydla gwaith dy ddwylo, O Dduw,

GALWN ARNAT TI, DDUW'R GREADIGAETH

yn ffyddlon tuag atom ger coed Eden,

GALWN ARNAT TI, DDUW ACHUBIAETH

yn ffyddlon tuag atom ar bren Calfaria;

GALWN ARNAT TI, DDUW'R CYFLAWNIAD

yn ffyddlon tuag atom yn iachâd pren y bywyd

Dy bobl ydym, O Dduw,

o strydoedd dy ddinas,

o afon y bywyd,

o'th orsedd yn y nef,

ATEB NI'N AWR

mewn geiriau grymus

a gweithredoedd cadarn. Llefara wrth ein cri 'am ba hyd'.

Am ba hyd y bydd boliau'r plant yn wag?

Am ba hyd y bydd eu mamau'n gweddio'n ofer?

Am ba hyd y bydd y tymheredd yn codi y tu hwnt i record? Am ba hyd y bydd y cymylau yn peidio rhoi glaw?

Am ba hyd y bydd y caeau'n troi'n llwch?

Am ba hyd y bydd llifogydd yn aros dros y tir? Am ba hyd y bydd ychydig yn byw gyda gormod? Am ba hyd y bydd gormod yn derbyn ychydig?

Am ba hyd raid disgwyl am iachâd y cenhedloedd?

Am ba hyd y bydd anghyfiawnder a dioddefaint yn aros? Ond nef, gwyddom, ein gwneuthuriad ni yw hyn;

ein bychod dihangol, ein halibi,

maent i gyd yn gwybod y gwir:

Mae ein pwyntio bys a'n gweddiâu 'am ba hyd' ni yn atsain yn ôl at ein duwioldeb ac yn mynnu ateb.

AM BA HYD, AM BA HYD?

Am ba hyd y bydd difaterwch, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder yn atal tosturi, iachad a llawnder bywyd?

Tyrd a thyrd yn fuan, Arglwydd, gad i'r bobloedd lawenhau.

O Eden i Galfaria, o'r nef i'r ddaear.

Coda pob llais i ganu, 'Amen!' Sefydla gwaith ein dwylo.

Efengylu – baich neu fraint?

Darllen: 2 Corinthiaid 5:16–6:2

Mae gan bawb farn wahanol pan mae'n dod i efengylu. Mae rhai'n meddwl bod ffydd yn rhywbeth preifat iawn, ac na ddylai unrhyw un geisio dylanwadu ar beth mae rhywun arall yn ei gredu. Weithiau, pan fydd rhywun yn trafod efengylu o fewn yr eglwys, bydd rhai gwrandawyr yn colli diddordeb am mai "rhywbeth i bobl eraill yw hwnna". Mae'r agweddau yma'n ddealladwy os nad ydym yn deall beth mae'r Gair yn dweud am y pwnc. Y gwir yw fod gennym i gyd gyfrifoldeb i efengylu – ond beth mae hynny'n ei olygu? Dwi'n hoffi meddwl am efengylu fel rhannu'r newyddion da am yr hyn mae lesu wedi'i gyflawni trwy farw ar y groes, a hefyd rhannu gydag eraill am ei gariad anhygoel. I mi, yn fwy nag unrhyw beth, mae efengylu'n golygu caru eraill fel mae lesu'n eu caru, a chynnig cyfle i bobl gael perthynas gydag lesu ei hun.

O'n i arfer bod ag ofn siarad gyda phobl am lesu, ond ar ôl gwneud penderfyniad i gamu allan, un cam ar y tro, fe wnaeth Duw lenwi fy nghalon â chariad tuag at bobl oedd ddim yn ei adnabod. Ers hynny, dwi wedi bod ar daith o dyfu mewn hyder. Dwi ddim am i neb gollu allan ar ei adnabod ef! Mae gweld pobl yn dod i adnabod lesu a phrofi ei gariad am y tro cyntaf yn fy gwneud i mor llawen.

Mae'r cyfrifoldeb i efengylu arnom ni i gyd: "Dŷn ni'n llysgenhadon yn cynrychioli'r Meseia, ac mae Duw yn anfon ei apêl allan trwon ni. Ar ran y Meseia, dŷn ni'n crefu arnoch chi: Dewch i berthynas newydd gyda Duw!" (2 Corinthiaid 5:20)

Mae'r adnod yma'n disgrifio nid yn unig yr Apostol Paul, ond pobl Dduw i gyd. Dyma pwy ydyn ni. Felly, dydyn ni ddim yn gallu dweud, "Dyw efengylu ddim i fi!" Mae'n rhan o'n bywydau ni fel Cristnogion. Am antur! Am fraint i allu sôn am yr Arglwydd a'i gynrychioli. Ddylai efengylu ddim teimlo fel baich arnom ni, ond fel antur i fynd arni gyda help yr Arglwydd. Ac mae'n wir ei fod yn ein helpu ni, un cam ar y tro (Actau 1:8). Dyma rai o'r prif bethau mae Duw wedi fy nysgu ar y daith yma o efengylu:

1. Gweddïo

Dyma'r man cychwyn i bob peth! Cyn dechrau ar unrhyw antur gydag lesu,

mae'n syniad da gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud hynny gydag ef, trwyddo ef ac iddo ef. Gweddïo yw'r ffordd i'n galluogi ni i wneud hyn. Hefyd, trwy weddi rydyn ni'n ennill brwydrau yn y byd ysbrydol sy'n agor drysau i gyfleoedd yn y byd naturiol. Rydym eisïau gweld drysau agored i lesu yn ein trefi ac yng nghalonau pobl.

Felly, mae'n bwysig gofyn i'r Arglwydd am gyfleoedd i rannu ei gariad a gofyn am bobl benodol i ddod i'w adnabod.

2. Gwrando

Yna, rhaid i ni wrando ar yr Arglwydd oherwydd bydd ef yn ein harwain at bobl benodol. Dwi wedi dysgu talu sylw pan mae gwahanol bobl yn dod i'r meddwl. Dwi wedi dysgu gweddïo drostyn nhw ac anfon neges atyn nhw i ddweud fy mod yn meddwl amdany'n nhw ac yn gweddïo drostyn nhw – dyma enghraifft o sut mae rhannu cariad Duw gyda rhywun. Yn aml, bydd Duw yn gweithio ym mywyd y person yna ar y pryd, ac yn rhoi'r fraint i ni gael bod yn rhan o beth mae'n ei wneud.

Rydym yn gallu edrych ar y 'cynhaeaf' (Luc 10:2, Mathew 9:37–8) fel cae mawr o wenith, ac mae'n hawdd meddwl ei fod yn bell i ffordd. Ond, mae Duw yn aml yn ein harwain ni at bobl o'n hamgylch, y 'gwenith' sydd o'n cwmpas, wrth ein traed – cymdogion rydyn ni wedi eu hadnabod ers blynyddoedd, efallai, ond heb sôn am gariad Duw gyda nhw, neu efallai ein teulu, neu ffrindiau agos. Rhaid i ni wrando ar lais Duw a thalu sylw os bydd pobl benodol yn dod i'r meddwl.

Mae gwrando ar bobl hefyd yn bwysig am fod hyn yn dangos cariad Duw. Mae pobl yn cofio mwy am y ffordd rydym yn gwneud iddyn nhw deimlo na'r geiriau rydym yn eu dweud, ac ambell waith mae gwrando yn llawer iawn mwy pwerus na phregethu wrth bobl. Rhoddod Duw ddwy glust i ni ac un geg, nid dwy geg ac un glust! Felly, mae'n syniad da i ni ymarfer gwrando mwy na siarad!

Un peth arall, ar ôl gwrando ar bobl a chymryd gwir diddordeb yn y pethau maen nhw'n eu rhannu, dwi'n mwynhau cynnig gweddïo drostyn nhw a gwahodd Duw i'w helpu yn eu bywydau, naill ai y foment honno, neu jyst esbonio'i fod yn

rhywbeth y bydda i'n ei wneud yn fy amser fy hun. Dyma ffordd arall o ddangos cariad Duw.

3. Gwahodd

Y trydydd cam yw gwahodd pobl i dreulio amser gyda thi a gwneud rhywbeth rydych chi'n ei fwynhau, mynd am dro neu am goffi, efallai. Ymhen amser, ac os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus, yn enwedig os ydyn nhw'n gofyn, gallwch rannu â nhw faint mae lesu yn ei olygu i chi a beth mae'ch ffydd a'ch perthynas gydag lesu yn debyg yn eich bywyd chi. Wedyn, ar yr amser iawn, gellir eu gwahodd nhw i ddod i'r cwrdd yn yr eglwys gyda chi er mwyn clywed mwy am lesu. Mae adeiladu perthynas gyda rhywun yn ffordd o ddangos cariad a bod bywyd y person yna'n bwysig iawn i Dduw. Wrth gwrs, mae'n bwysig bod ein cariad tuag at y person yn ddiffuant a'n bod ni'n eu caru nhw drwy lygaid a chalon yr Arglwydd – mae Duw yn barod iawn i'n helpu gyda hyn pan fyddwn ni'n gofyn.

4. Gofyn

Yn olaf, ar ôl gweddïo dros bobl benodol, treulio amser gyda nhw, gwrando arny'n nhw a dangos beth mae'ch perthynas chi gydag lesu yn ei olygu i chi, bydd amser yn dod pan fydd yn teimlo'n iawn i ofyn y cwestiwn, "Hoffet ti roi dy fywyd di i lesu? Hoffet ti fyw iddo ef, bod mewn perthynas gydag ef a derbyn beth mae wedi'i wneud drosot ti?" Wedyn, os bydd yn addas, arwain nhw mewn gweddïo o ymateb iddo ef. Mae 'tracts' yn dda i helpu gyda hyn ac maen nhw'n cynnwys gweddïo er mwyn arwain pobl at lesu. Edrychwch ar wefan www.The4points.com i brynu tracts yn y Gymraeg.

Mae Duw eisïau'ch defnyddio chi fel llysgennad yn eich cymuned. Ie, CHI! Felly, pwy wnei di ddechrau gweddïo drosto neu drosti heddiw sydd ddim yn adnabod yr Arglwydd? I ble fyddi di'n eu gwahodd nhw? A chofia wrando'n astud arnynt a gofyn iddynt ar yr amser iawn, "Hoffet ti roi dy fywyd di i lesu?"

*Lydia Power
Cydweli*

*(Anerchiad a draddodwyd yng Ngŵyl Llanw
yn Aberystwyth wedi'r Pasg)*

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 22 Mai, am 7.30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Yr wythnos yma byddwn yn Aberteifi. Bydd Ryland yn ymweld ag Eglwys y Grog, Mwnt, i glywed am y gobaith wedi'r difrod yn yr eglwys. Cawn berfformiad gan gôr Ar ôl Tri, a daw'r canu mawl o Gapel Mair, Aberteifi, o dan arweiniad Rhys Griffiths.

**radio
cymru**

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 22 Mai, am 7:30yb a 2.00yp

Ralph Vaughan Williams a Lowell Mason – dau gyfansoddwr sydd dan sylw gan Euros Rhys Evans: y naill, Ralph Vaughan Williams, wedi ei eni gan mlynedd a hanner yn ôl ym 1872, a'r llall, Lowell Mason, yn marw yn yr un flwyddyn.

Sul, 22 Mai, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Ariadne van den Hof, Shooter's Hill, Llundain

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Colofn Cerdd a Mawl gan Dilwyn Ellis Roberts

Thomas A. Dorsey

Mae gen i raglen blŵs ar Radio Aber rhwng deg a hanner nos bob nos Lun ble mae cyfle i glywed cerddoriaeth o'r 1920au hyd heddiw.

Dros y Pasg roedd cyfle i chwarae caneuon blŵs yn gysylltiedig â'r ŵyl gan ddechrau gyda 'Dark Was the Night, Cold Was the Ground' gan Willie Johnson sydd wedi cael sylw blaenorol gen i ar dudalennau *Y Tyst*.

Roedd y rhaglen yn gymysgedd o blŵs a gospel ac felly roedd yn amhosib peidio chwarae trac gan Thomas A. Dorsey gafodd ei eni yn Villa Rica, Georgia ar 1 Gorffennaf, 1899.



Y cychwyn

Dechreuodd ei yrfa fel gitarydd blŵs a dod i amlygrwydd yn cyfeilio i'r anghymharol Ma Rainey gan greu partneriaeth gyda'r gitarydd Tampa Red. Yn wir, bu i'r ddau recordio 90 trac gyda'i gilydd gyda nifer ohonynt yn rhai gyda theitlau digon awgrymog!

Daeth goleuni

Trodd ei gefn ar gerddoriaeth *hokum* a *dirty blues* a hynny ym 1926 pan ddiodeffodd gyfnod o iselder ble bu iddo ystyried diweddu ei fywyd. Cafodd brofiad ysbrydol dramatig ddwy flynedd yn ddiweddarach ac yn dilyn marwolaeth ffrind agos cyfansoddodd 'If You See My Savior, Tell Him That You Saw Me'. Er iddo ddatblygu ei ddawn i ysgrifennu caneuon ysbrydol trodd 'nôl at y blŵs a pharhau i recordio cerddoriaeth gyda Tampa Red, 'The Famous Hokum Boys'. Fodd bynnag, erbyn 1930 roedd wedi dod i amlygrwydd unwaith eto ym myd canu Cristnogol wrth i'r efengylwraig Willie Mae Ford ganu ei gân 'If You See My Savior'.



Datblygu mawl

Rhwng sesiynau recordio gyda Tampa Red, ac yntau yn Chicago, ffurfiodd gôr yr Ebenezer Missionary Baptist Church, a chafodd ei gyfareddu gan y gweinidog ar y pryd y Parchedig James Smith a'r cyfarwyddwr cerdd, Theodore Frye. O fewn dim roedd Dorsey ei hun yn gyd-gyfarwyddwr cerddorol y Pilgrim Church ble roedd yn arweinydd eneiniedig ar y cantorion. Sefydlodd yr Gospel Choral Union of Chicago a ddatblygodd i fod yn National Convention of Gospel Choirs and Choruses ond daeth trasiedi i'w ran. Bu farw ei wraig Nettie ar enedigaeth eu plentyn, gyda'r plentyn hefyd yn marw llai na phedair awr ar hugain yn ddiweddarach. Yn ei alar ysgrifennodd y clasur gospel 'Take My Hand, Precious Lord', hoff gân Dr Martin Luther King.

Precious Lord, take my hand;
Lead me on, let me stand,
I'm tired, I'm weak, I'm worn.
Through the storm, through the night,
Lead me on to the light;
Take my hand precious Lord, lead me home.

Marchnata a meithrin

Yn y galar hwnnw aeth ati i ganolbwyntio ar farchnata ei ganeuon

crefyddol ac i feithrin cantorion a cherddorion ifanc gan gynnwys Mahalia Jackson ddaeth yn frenhines canu gospel. Roedd rhai yn gwrthwynebu'r elfen blŵs yn ei gerddoriaeth, rhai yn gwrthwynebu'r synau uchel a rhai yn gwrthwynebu lle canolog menywod yn rhannu neges yr efengyl.

Galw ar Dduw

Mae'r ddeuoliaeth hwn wedi nychu cerddoriaeth o'r cychwyn cyntaf gyda llawer yn ystyried y blŵs fel cerddoriaeth y diafol. I'r gwrthwyneb mae'r blŵs yn gerddoriaeth sy'n falm i'r enaid ac yn codi'r ysbryd. Fel y dywedodd Willie Dixon, prifardd y blŵs, 'the whole of life itself expresses the blues. That's why I always say the blues are the true facts of life expressed in words and song, inspiration, feeling and understanding. The blues can be about anything pertaining to the facts of life. The blues call on God as much as a spiritual song do.'

Mae 'Georgia Tom', Thomas A. Dorsey yn pontio gospel a blŵs ac yn ysbrydoliaeth ar gerddoriaeth hyd heddiw gan gynnwys cerddoriaeth Elvis, Johnny Cash, The Staple Singers, George Jones, BB King, Tupac Shakur, Mary J. Blige; Moby, Steve Eaves a Bruce Springsteen.

Penderfyniadau i Undeb 150

Mae cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd flynyddol. Dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dydd Gwener, 20 Mai fan bellaf.

PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

Rheswm i ddatlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.' (Salm 95:1)

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, pa resymau sydd gennym i ddatlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn 15 Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thy John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Barn Annibynnol

Dathlu'r 10 a'r dyfodol

Mae cymaint wedi digwydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf a ninnau wedi gorfod addasu i drefniadau newydd, i dechnoleg newydd ac i ffyrdd newydd o fyw. Wrth i ni ddechrau dod yn ôl i ryw fath o normalrwydd yn y capel, fe ddaeth hi'n gyfnod y cyfarfod blynyddol yn ddiweddar yn ein heglwys, eglwys Mynydd Seion Casnewydd, a sylwi bod trefn yr arweinyddion yn ein heglwys yn dathlu 10 mlynedd ers ei sefydlu! Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'r aelodau am eu ffydd ynom fel arweinyddion wrth gwrs a chytunwyd i flwyddyn arall o'r un drefn a bydd croeso i bawb i'r dathlu yn yr haf!

Ein trefn ym Mynydd Seion yw bod tri arweinydd wedi bod yn cymryd yr awenau wrth arwain addoliad ac wrth gynnal yr eglwys o ddydd i ddydd. Roedd y tri ohonom yn gweithio'n llawn amser ar y pryd, er bod hynny wedi newid i ddau o'r tri erbyn hyn. Wrth fod tri ohonom y mae hynny'n rhannu'r cyfrifoldebau'n haws hefyd yn enwedig os yw rhywun i ffwrdd ar benwythnos fan hyn ac acw. Ond y mae'r drefn newydd wedi dod yn norm.

Gwn bod yna rai o hyd, yn anffodus, sydd yn erbyn y drefn arweinyddion ac yn bendant eu barn 'mai dim ond gweinidog ordeiniedig all arwain eglwys.' Ond a'i dyna'r unig batrwm ar ein cyfer erbyn heddiw? Gyda nifer o eglwysi heb y gallu i gyflogi gweinidog llawn amser gan nad oes digon o aelodau, oes angen i ni edrych ar gynlluniau i ariannu gweinidogion yn rhannol yn ganolog gydag eglwysi'n ariannu'r gweddill? Ychydig fel Undeb Rygbi Cymru a'u cytundebau proffesiynol? Pwy a wŷr?

Un peth sydd yn wir yw bod yn rhaid i ni fod yn realistig gyda'n sefyllfa ni fel eglwysi yn yr G21ain a rhaid i ni ymateb i'n cymunedau nid disgwyl i'r cymunedau ymateb i ni ...

Y mae wrth gwrs yn hynod bwysig bod ein gwasanaethau wedi eu gwreiddio yng ngair Duw a'r ysgrythur yn cael ei gymhwyso i'r byd yr ydym yn byw ynddo. I fynd i'r afael â sicrhau safon a hygyrdd, mae felly angen i ni sefydlu system hyfforddiant proffesiynol trylwyr a hwylus ar gyfer cenhedlaeth newydd o arweinyddion newydd ein heglwysi, sydd yn cychwyn unigolion i fagu hyder i ddarllen o flaen cynulleidfa i gychwyn ac yna cawn weld i ble yr awn i o fanna gyda nerth Duw! Gwn fod hyn eisoes ar waith. Ond mae angen

iddo fod yn hygyrch a hyrwyddwyr a chefnogwyr yn barod i annog yn ein heglwysi unigol.

Byddwn yn cychwyn cynllun newydd ym Mynydd Seion yn fuan sef sesiwn cyd-drefnu addoliad. Bydd yn sesiwn lle fyddwn ni'n ystyried thema, adnabod rhannau i'w darllen, yna'n llunio gweddïau a gweithgareddau ar y cyd ac yna eu cyflwyno mewn gwasanaeth. Y gobaiith yw rhoi hyder i'r rhai sydd am gymryd rhan ond efallai'n swil neu heb wneud ers dyddiau plentyndod ac yna adeiladu ar y sgil hwn. Yn ddi-os, fe wnawn rannu'r deunydd a'r profiad gyda chi pan ddaw ffrwyth. Er bod system ar waith, mae angen magu'r arweinyddion nesaf o hyd!

Un peth arwyddocaol wrth gwrs yw nad yw'r un bobl gyda ni. Rydyn ni'n hiraethus am y rhai sydd wedi ein gadael wrth gwrs ac yn ddiolchgar i Dduw am y rhai newydd sydd wedi ein canfod. Mae'r ffaith ein bod yma o hyd yn dyst bod y gwaith sydd yn digwydd yn effeithiol ac yn rhoi nerth i ni barhau ein gwaith fel eglwys a bod Duw am i'r gwaith barhau yn y gornel fach hon o Gymru. Rydym yn barod iawn i rannu o'n profiadau ac felly mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech chi sgwrs.

Elin Maher

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)



Sefydlu Swyddogion Mynydd Seion 2011

Cydymdeimlad

Trist iawn gennym oedd gennym glywed am farwolaeth Mrs Doris Lloyd, Porth-cawl, gweddwr diweddar Barchedig Alwyn Lloyd. Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu galar yn enwedig gyda'i mab Eirug Lloyd yn ei golled a'i hiraeth.

Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg 2022

Trwy ryw amryfusedd nid oedd dyddiadau Undeb 150 wedi eu cynnwys yn yr ohebiaeth a anfonwyd o'r swyddfa'n ddiweddar. Ymddiheuriadau fil am hyn.



Dyma nodi, felly, mai o brynawn Iau, 7 Gorffennaf hyd at amser cinio ddydd Sadwrn, 9 Gorffennaf y cynhelir y gynhadledd flynyddol eleni.

Bydd croeso mawr a chynnes yn ein disgwyl ac edrychwn ymlaen at ddod ynghyd i Gaerfyrddin yn yr haf.



Estynnir croeso a gwahoddiad cynnes i

Dathliadau 150 mlyneddiant

Capel Salem, Llanbedr-y-Cennin

Dydd Sul, Mai 29ain 2022

P'nawn Agored 2.30-4.30yp

Arddangosfa o hen luniau

Cyfle i sgwrsio dros baned a chacen

Oedfa o ganu mawl am 5yh

Lledaenwch y gwahoddiad a'r croeso

Cyswllt ebost: capelsalem1897@gmail.com



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol
gan Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin 2022

*Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan Halliwell,
ar gampws Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3EP*



DYDD IAU, 7 Gorffennaf

- 1.30 CYNHADLEDD 1**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys
- 2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Adroddiad Undeb Rhithiol 2021 (*y Llyfr Gwyrdd*)
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2023
i Gyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
- 3.00** Te a chacen a chroeso
- 4.00–5.00** Cyfarfod Heddwch
- 5.30** Swper
- 7.30 CYFLWYNIAD** gan aelodau a chyfeillion
eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin.

DYDD SADWRN, 9 Gorffennaf

- 9.30** Defosiwn: Parchg Tom Defis, Cadeirydd y
Pwyllgor Lleol
- 9.40** Dathliad yr Undeb dan ofal Alun Lenny
- 11.00** Te/coffi
- 11.30 OEDFA'R LLYWYDD**
Llywyddir gan Mr Dafydd Roberts,
Cadeirydd y Cyngor
Coffáu'r rhai a fu farw
Gweddi: Parchg Rhodri Glyn Thomas
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb
- ANERCHIAD Y LLYWYDD:**
Parchg Beti-Wyn James
- 1.00** Cinio ac ymadael

DYDD GWENER, 8 Gorffennaf

- 9.30 CYNHADLEDD 2**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys
- 10.00** Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad ar Fuddsodion yr Undeb
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
 - hyd at 3 i'r Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
 - cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn
- 11.00** Te/coffi
- 11.30** Y Drysorfa Gynorthwyol
Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau
Y Tyst
- 1.00** Cinio

Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau

- 2.00 CYNHADLEDD 3**
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol
Penderfyniadau
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Penderfyniadau
UFA
- 3.30** Te/coffi
- 4.00–5.00 'Yr olaf o win yr haf: Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg, 1972-2022'**
Darlith gan Parchg Ddr Geraint Tudur
- 5.30** Swper
- 7.30 OEDFA O FAWL** Capel Heol Awst, Caerfyrddin
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James
Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones